
PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 36 | Medi 4, 2025 | 50c.

## Dathlu 150 mlynedd Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd yn Llundain







Braint fawr i Bethan, fy chwaer, a minnau oedd cael cynrychioli Undeb yr Annibynwyr Cymraeg mewn gwasanaeth arbennig i ddathlu 150fed pen-blwydd Cymundeb Eglwysi Diwygiedig y Byd (WCRC) ar 12 Gorffennaf yn Eglwys Ryngwladol America yn Llundain. Trefnwyd yr oedfa gan yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig – sydd fel Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn un o'r 232 o eglwysi ac undebau (ar draws 109 o wledydd) sy'n aelodau o'r mudiad.

### Hanes

Dilynodd y Parchg Dr Setri Nyomi, Ysgrifennydd Cyffredinol WCRC, yn llinach y sefydliad o'r Diwygiad Protestannaidd yn yr 16eg ganrif i'w sefydlu ffurfiol yn Llundain ym 1875, pan ymgasglodd 21 o eglwysi Presbyteraidd i ffurfio Cynghrair yr Eglwysi Diwygiedig. Adroddodd am ei hesblygiad: uno â chyrff Cynulleidfaol a Diwygiedig eraill i greu Cynghrair yr Eglwysi Diwygiedig Byd-eang (WARC) ym 1970, yna uno â'r Cyngor Eciwmenaidd Diwygiedig (REC) yn 2010 i ffurfio WCRC heddiw.

### Gweledigaeth



Traddododd y Parchg Najla Kassab, Llywydd WCRC, bregeth a gynigiodd weledigaeth gyffrous o ddychymyg moesol. Wedi'i gwreiddio yn Salm 96, galwodd pregeth y Llywydd ar yr eglwys i 'ganu cân newydd', nid yn unig mewn alaw ond mewn cenhadaeth – i ganoli addoliad mewn cyfiawnder, meithrin cymunedau cynhwysol, a chario tystiolaeth yr Efengyl y tu hwnt i furiau'r cysegr. Daeth y neges i'w derfyn gyda delwedd bwerus wedi'i hysbrydoli gan baentiad George Watts, *Gobaith*, sef dynes â rhwymyn llygaid yn eistedd ar y byd, yn dal offeryn â phob tant ond un wedi'u torri. 'Gall yr un tant hwnnw chwarae alaw o hyd,' meddai. 'Nid optimistiaeth yw hyn, ond gobaith. Gobaith ystyfnig efallai, anghytûn hyd yn oed, yn canu mewn allwedd leiaf – ond yn dal i ganu.'

### Cyffes Belhar

Cafwyd darlleniad o Gyffes Belhar, gan bwysleisio cyfiawnder, undod a chymod fel ymrwymiadau diwinyddol craidd ar gyfer dyfodol y Cymundeb. Daeth arweinwyr o bob rhan o'r traddodiad Diwygiedig â chyfarchion i'r oedfa. Meddai'r Parchg Dr Jooseop Keum, o Gyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM), 'Nid carreg filltir hanesyddol yn unig yw hon; dyma stori sy'n datblygu am gymundeb a aned o argyhoeddiad.'

Arweiniwyd y canu gan gôr gospel Eglwysi Diwygiedig Dwyrain Llundain. Heb amheuaeth, wrth i leisiau o bob cwr o'r byd godi mewn addoliad, tystiolaeth a gweddi, roedd yr oedfa'n adleisio gwirionedd dwfn: hyd yn oed pan fydd amgylchiadau'n bygwth ein tawelu, mae ysbryd yr eglwys – y 'tant olaf' ym mhaentiad George Watts – yn parhau i ganu alaw wydn, herfeiddiol. Y gân newydd.

**Hefin Jones**

## Dyfrig bia'r gair olaf

A minnau bellach wedi cyrraedd fy ymddeoliad carwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch o waelod calon i bawb am bob arwydd o ewyllys da a charedigrwydd a dderbyniais dros yr wythnosau diwethaf hyn, ac yn fwy felly am bob cefnogaeth hael a pharod a gefais dros dymor fy ngwasanaeth fel Ysgrifennydd Cyffredinol.



Braint yn wir fu cael fy ngalw i'r gwaith a thyfu wnaeth yr ymdeimlad o alwad dros y blynyddoedd. Mawr hyderaf i mi wneud cyfiawnder â'ch ymddiriedaeth chi ynof. Er bod ystafell yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn gallu bod yn lle unig ar adegau, prysuraf i nodi mai ysbeidiol iawn y mae hi felly, hefyd. Gwaith tîm yw gwaith yr Undeb a chydweithio yw cyfrinach ei lwyddiant. Ar bwys hynny carwn ddiolch i'r staff, y swyddogion, a'r holl wirfoddolwyr fu mor barod ac egnïol eu cydweithrediad.


Pleser digymysg yw dymuno'n dda i'm holynydd a'm cydweithiwr Elinor Wyn Reynolds wrth iddi symud ystafell yn Nhŷ John Penri a chydio yn y gwaith. Bendith Duw fo arni hithau a'r staff wrth iddynt arwain yr Undeb i bennod newydd a chyffrous yn ei hanes.

Braf, wedi oes o weithio, fydd manteisio ar hamdden i gydio mewn ambell orchwyl a esgeuluswyd mewn prysurdeb ac i ddihuno rhyw ddiddordebau fu nghwsg ers tro. Afraid nodi, mai hyfrydwch bydd cael treulio mwy o amser gyda'r teulu ac i gydnabod fy nyled i Mandy, fu'n gymaint cefn i mi yn fy ngweinidogaeth.

Hoffwn nodi mai fy nghyfeiriad e-bost yw: mandydyfrig@btinternet.com a'm rhif ffôn yw: 07790 168189.

**Dyfrig Rees**

# Defosiwn Undeb Nant Gwrtheyrn



*Dyma ran olaf defosiwn Dafydd Roberts Trefor a draddodwyd yng Nghyfarfodydd Undeb yr Annibynwyr yn Nant Gwrtheyrn.*

Mae'r defosiwn yn seiliedig ar Salm 73:1–6; 21–28.

O gofio mai yng 'nghysegr Duw' y cafodd y salmydd oleuni ar bethau, rwyf am awgrymu nad ar unrhyw gyfrif y dylid diystyru a bychanu'r addoliad cyhoeddus yn ein heglwysi ni heddiw. Yn y Rhagymadrodd i *Lyfr Gwasanaeth yr Annibynwyr* a gyhoeddwyd yn 1962, fe sonnir, yn naturiol felly, am natur ein gwasanaethau addoli – hynny yw yr addoliad cyhoeddus, sef oedfaon y Sul:

> *Yno* y sylweddola hi [yr eglwys, cynulleidfa pobl Dduw] 'drugareddau Duw' drachefn a thrachefn. *Yno* y mae ei Harglwydd yn siarad â hi, ac yno y rhydd hithau ei hateb iddo mewn mawl a chyffes a gweddi.

Ac i ddyfynnu eto o'r *Llyfr Gwasanaeth*:

> Yn awr, y mae'r ffaith seml, aruthr, bod yr Arglwydd Iesu Grist ei Hun yn bresennol a bod yr Ysbryd Glân yn weithredol mewn oedfa, yn gwneuthur addoliad yn beth mor anhraethol odidog, fel na all na phregethwr na chôr nac organydd, na dim na neb arall, ei wneuthur yn beth godidocach.

Ni ddylid diystyru pwysigrwydd y gymdeithas Gristnogol lle ceir cyfle i nesáu at Dduw, i ddarllen a myfyrio yn ei Air a galw arno mewn gweddi. Y gymdeithas arbennig, unigryw hon, y gymdeithas 'yn wir sydd gyda'r Tad, a chyda'i Fab ef, Iesu Grist.' [1 Ioan 1:3 WM]

Drwy fynd i gysegr Duw cafodd y salmydd oleuni. O ganlyniad i hynny y daeth i'r penderfyniad mai 'nesáu at Dduw sydd dda i mi.' [Adn. 28 WM] 'Ond da i mi yw bod yn agos Dduw.' [Adn. 28 BCND]. Ac mae'n fwriad ganddo fynegi rhyfeddodau Duw. Dw i am foliannu enw'r Arglwydd, meddai'r Salmydd; dw i am 'draethu am ei holl weithredoedd.' Hwn sydd wedi galw'r bydoedd i fod â gair ei enau; Hwn waredodd ei bobl o wlad yr Aifft, o dŷ caethiwed. Hwn ddaru arwain a chynnal ei bobl yn yr anialwch; Hwn sydd yn noddfa a nerth i ni a bendigedig fyddo'i Enw!

Ac mi fedrwn ni, heddiw, ychwanegu at hynny a dweud mai dyma'r Duw a ddaeth atom ni yn Iesu Grist. Ac yn haeddiant Iesu Grist y mae ffordd i ni ddod yn agos at Dduw. Meddai Iesu Grist ei hun, 'Myfi yw'r ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd. Nid yw neb yn dod at y Tad ond trwof fi.' (Ioan 14:6) Bu farw yn ein lle ac fe atgyfododd i'n cyfiawnhau. Morgan Rhys piau'r emyn:

> Hosanna, Haleliwia
> I'r Oen fu ar Galfaria,
> Gorffennwyd iachawdwriaeth dyn,
> Efe ei Hun yw'r noddfa;
> Tragwyddol ddiolch iddo
> Am faddau a thosturio;
> Anfeidrol fraint i lwch y llawr
> Fod croeso nawr ddod ato.
> (*Trysorau Gras*, 71).

Ac ar gychwyn yr Undeb hwn, dowch inni gofio, yng ngeiriau Paul at eglwys Effesus, beth a phwy sydd o'n plaid ni:
' ... beth yw aruthrol fawredd y gallu sydd ganddo [sef Duw] o'n plaid ni sy'n credu, y grymuster hwnnw a gyflawnodd yng ngrym ei nerth yng Nghrist pan gyfododd ef oddi wrth y meirw, a'i osod i eistedd ar ei ddeheulaw yn y nefolion leoedd, ymhell uwchlaw pob tywysogaeth ac awdurdod a gallu ac arglwyddiaeth, a phob teitl a geir, nid yn unig yn yr oes bresennol, ond hefyd yn yr oes sydd i ddod.' [Eff. 1:19-21]. Felly, at ein gwaith â ni gyda phob hyder a gobaith! AMEN

*(Fe gyhoeddir crynodeb o ail ddefosiwn D. Roberts yn y dyfodol agos. Testun y myfyrdod Beiblaidd oedd Actau 8:26–40, Philip a'r Eunuch o Ethiopia.)*

# Hyfforddi – beth sy'n digwydd?

*Yn ystod cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn eleni fe gyflwynodd Carwyn Siddall adroddiad cadarnhaol llawn bwrlwm a phositifrwydd o'i waith fel swyddog hyfforddi yr Undeb. Yma y mae crynodeb o'r adroddiad hwn.*



Yn ddiweddar, gwelais lun yn ymddangos ar y cyfryngau cymdeithasol. Un o offeiriaid yr Eglwys yng Nghymru rannodd y llun. Ynddo, gwelir hen stwmp mawr megis cofadail i goeden fawr gadarn fu unwaith yn sefyll yn y fan honno'n dalsyth a chadarn, a'i phresenoldeb yn dysteb o'i chadernid. Ysywaeth, mae'n amlwg fod rhywbeth wedi digwydd – am resymau naturiol, neu ymyrraeth dynoliaeth, syrthiodd y goeden. Fodd bynnag, yng ngwres yr haul, a than wlith y glaw, tyfodd o'r hyn sydd weddill gangen newydd, ac arni flagur. Un gair oedd yr offeiriad wedi ei roi fel capsiwn i'w lun: gobaith.

Cyffyrddodd y llun hwn â mi, a rhywsut, gallwn uniaethu â'r symbolaeth. Onid oes gennym ni hanes cyfoethog ym maes ein hyfforddiant gyda'r colegau a'r athrawon a fu'n dysgu ac ysbrydoli cenedlaethau o weinidogion ac o leygwyr, a diolch amdanynt? Ond dros y blynyddoedd, gwelwyd yr hen strwythurau yn dangos eu hoed, a'r angen i ailystyried ein strwythur hyfforddi. Ond braint i mi heddiw yw sefyll o'ch blaen, a datgan fod canghennau newydd yn tyfu a blaguro, ac addewid newydd ymhob blagur.

Gadewch i mi rannu ychydig am y canghennau newydd a welwyd yn ymddangos yn ystod y flwyddyn.

### Dysgu a datblygu

Mae'r cynllun Dysgu a Datblygu yn cael ei rannu i wahanol haenau, gyda phob haen yn cynnig rhywbeth gwahanol. Yr haen gyntaf yw'r sesiynau achlysurol a gynhelir ar ffurf hybiau lleol. Ni chynhaliwyd y sesiynau hyn yn ystod tymor y gaeaf y llynedd, ond rydym yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o'u cynnal yn ystod y gaeaf sydd i ddod.

Mae ein prif ffocws hyd yn hyn wedi bod ar yr ail haen, sef y modiwlau 6-8 sesiwn sy'n cael eu cynnal yn rhithiol. Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd pedwar o'r modiwlau hyn yn cael eu cynnal, sef; Darganfod yr Hen Destament; Darganfod y Testament Newydd; Bugeilio a'r Sacramentau

Braint oedd derbyn arweiniad yr Athro Eryl Wynn Davies i arwain y modiwl Darganfod yr Hen Destament, a'r Athro Catrin Haf Williams i arwain y modiwl Darganfod y Testament Newydd. Dyma i chi ddau o arbenigwyr yn eu meysydd, sy'n cael eu cydnabod yn fyd-eang am eu hymchwil, eu cyfraniad a'u harbenigedd yn y pynciau, a'n braint oedd derbyn eu harweiniad.

*parhad ar y dudalen gefn*

Yr Adran Gydenwadol

MEDI 4 2025 RHIF 236

## Penodi Ysgrifennydd Gweithredol newydd i Bantyfedwen

Mae’n bleser gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen gyhoeddi eu bod wedi penodi Ysgrifennydd Gweithredol newydd i olynu Gwenan Creunant, fu yn y swydd ers naw mlynedd. Dechreuodd Hefin Jones ar ei swydd ar 1 Medi 2025, a bydd yn gweithio o’r swyddfa yn Stryd y Farchnad, Aberystwyth, gyda Lynwen Huxtable, y Cynorthwyydd Gweinyddol.

Brodor o ardal Llanbedr Pont Steffan yw Hefin, ac mae ganddo raddau BA ac MPhil yn y Gymraeg o Brifysgol Aberystwyth. Dechreuodd ei yrfa ym myd llyfrau a llyfrgellyddiaeth cyn penderfynu cymhwyso fel athro. Treuliodd rai blynyddoedd yn dysgu yn ardal Caerdydd cyn symud yn ôl i’w ardal enedigol, a bu’n bennaeth ar ysgolion cynradd Tal-y-bont, Llangynfelyn ac Ysgol Craig yr Wylfa, y Borth, ers pedair blynedd ar hugain.

Dywedodd Gwerfyl Pierce Jones, Cadeirydd yr Ymddiriedolaeth, “Edrychwn ymlaen yn fawr at groesawu Hefin i arwain gwaith yr elusen dros y blynyddoedd nesaf. Dangosodd fod ganddo ddealltwriaeth, ymwybyddiaeth glir a diddordeb personol yn y gwahanol feysydd sy’n derbyn grantiau gan Bantyfedwen yn flynyddol, ac mae ganddo brofiad helaeth o ymdrin ag amrywiaeth o unigolion a sefydliadau, fydd yn gymorth wrth iddo gydio yn yr awenau.”

Diolch hefyd i Gwenan Creunant am ei harweiniad rhagorol dros y naw mlynedd diwethaf, a dymunwyd yn dda iddi i’r dyfodol.



## *Yng Ngolwg Ffydd* gan Owain Llŷr Evans

Er mai ar fore Llun Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam y bu lansiad swyddogol *Yng Ngolwg Ffydd*, casgliad o erthyglau Colofn Golwg360 ein gweinidog, y Parchedig Owain Llŷr Evans, braf iawn i ninnau fel eglwys, yn arbennig felly, a ninnau’n cael cwmni brodyr a chwiorydd o eglwysi eraill Caerdydd a’i chyffiniau, oedd cael lansiad bach answyddogol ein hunain yng Nghapel Minny Street.

Wedi gair bach gan Dr Bethan Jones, ac ychydig sylwadau gan y Parchedig Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, ac felly un o ymddiriedolwyr Cyngor Ysgolion Sul, cafwyd cyfle am lun, paned a sgwrs – a’r gyfrol ar gael i bawb.

Boed gwerthiant da i’r gyfrol, a bendith o’i herwydd.

Yng *Ngolwg Ffydd, casgliad o erthyglau colofn Golwg360* gan Owain Llŷr Evans. Cyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau’r Gair; pris £9.99.



# Credo Nicea – Sesiwn Pedwar – Ysbrydoliaeth yr Ysbryd Glân (rhan 1)

**Diwygiwyd geiriad y Credo a gytunwyd yn Nicea (325 OC) yng Nghyngor Caergystennin yn 381 OC. Yn gyffredinol, y fersiwn hwn, Credo Nicea-Caergystennin, sydd wedi ei etifeddu gennym ar draws y canrifoedd, yw'r un a ddefnyddir gan y traddodiadau Cristnogol ar draws y byd ac sy'n sail i'r myfyrdodau sy'n dilyn.**

### Y Triongl Gobaith – Virginia, UDA

Ysgrifennwyd gan y Parchg Dad Rock Higgins, Esgobaeth Virginia, UDA

Y Tad Rock yw Rheithor Eglwys Esgobol Sant Iago'r Lleiaf, Ashland, Virginia. Ef hefyd yw Arweinydd Pererindod Ieuenctid y Triongl Gobaith yn Esgobaeth Virginia.

**Esgobaeth Virginia a'r Triongl Gobaith**

Mae Esgobaeth Virginia yn un o dair Esgobaeth Gymanwladol (term sy'n cyfeirio 'nôl at y cyfnod cyn ffurfio'r Unol Daleithiau yn 1776, pan oedd y taleithiau hyn yn eiddo i Brydain). Cynhaliwyd yr Ewcharist Anglicanaidd cyntaf yma yn 1607 yn Jamestown. Deuddeg mlynedd yn ddiweddarach, yn 1619, cafodd y caethweision Affricanaidd cyntaf eu trin fel eiddo a'u gwerthu'n gaethion yn Jamestown. Y mae'r etifeddiaeth hon yn dal i'n haflonyddu heddiw. Ynghyd â'n partneriaid yn Esgobaeth Lerpwl (yn Lloegr) ac Esgobaeth Kumasi (yn Ghana), rydym wedi ymrwymo i oresgyn etifeddiaeth ein gorffennol cyffredin a chamu ymlaen tuag at gymod a maddeuant, drwy weithio, gweddïo ac addoli ar y cyd.

**Yr Ysbryd Glân – Ysbrydoliaeth**

Credwn yn yr Ysbryd Glân, yr Arglwydd, rhoddwr bywyd, sy'n deillio o'r Tad a'r Mab, ac ynghyd â'r Tad a'r Mab a gydaddolir ac a gydogoneddir, ac a lefarodd trwy'r proffwydi.

**Darlleniad o'r Beibl – 2 Corinthiaid 5:17–18**

17 Felly os yw rhywun yng Nghrist, y mae'n greadigaeth newydd; aeth yr hen heibio, y mae'r newydd yma. 18 Ond gwaith Duw yw'r cyfan – Duw yr hwn sydd wedi'n cymodi ni ag ef ei hun trwy Grist a rhoi i ni weinidogaeth y cymod.

**Myfyrdod**

Ym mhedwerydd sesiwn ein hastudiaeth, gyda chymorth Credo Nicea, meddyliwn am ystyr 'Duw yr Ysbryd Glân' yn ein cyfnod ni. Trwy'r Ysbryd Glân y cawn ein trawsffurfio ac y cawn obaith am rywbeth gwell, i ni ac i'n byd.

Y fasnach gaethweision draws-Iwerydd yw'r enw a roddir i'r caethiwo gorfodol hwn o bobl, a'u symud o Affrica i'r Americas. Rhwng y blynyddoedd 1500 a 1800, fe gludwyd rhwng 12 a 15 miliwn o bobl – mae rhai haneswyr yn awgrymu ffigwr allai fod wedi bod yn uwch – o Affrica, i'w defnyddio fel caethweision yn y Caribî, yng Ngogledd, Canolbarth a De America. Amcangyfrifir bod dros ddwy filiwn o bobl wedi marw yn ystod y daith i'r Americas – y Daith Ganol (*The Middle Passage*).

Yn bennaf, gweinidogaeth o gymod yw ein gwaith gyda'r Triongl Gobaith. Un o freintiau mwyaf fy mywyd fu cael cyfle i weithio gyda chwiorydd a brodyr ar dri chyfandir i oresgyn hunllefau'r fasnach gaethweision draws-Iwerydd. Ni all neb ohonom wneud hyn ar ein pennau ein hunain. Rhaid wrth y gostyngeiddrwydd a ddaw yn unig o gael ein trawsffurfio gan yr Ysbryd Glân sy'n gweithio ynom a thrwom fel 'creadigaethau newydd'. Mae'r model hwn gennym yng Nghrist, sy'n dod atom ac yn dangos llwybr gwahanol i ddynolryw. Yn ein trawsffurfiad a'n twf, gallwn weld ffordd allan o'r hanes pechadurus y bu i'n hesgobaethau gymryd rhan ynddo, ac a gyflawnid yn aml yn enw Crist.

**(I'w barhau)**

# CARTREF NEWYDD I'R STAFELL FYW A CYNNAL

Y newyddion cyffrous yw bod y Stafell Fyw a CYNNAL wedi symud i'w cartref newydd ar 1 Gorffennaf 2025. Mae rhan o Eglwys y Crwys, Caerdydd, wedi ei haddasu ar gyfer y Stafell Fyw, a bydd y Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill, CYNNAL a'r Stafell Fyw yn rhannu swyddfa weinyddol. Mae'r bartneriaeth newydd hon yn cael ei ffurfio dan oruchwyliaeth elusen y Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill. Sefydlwyd y Cyngor yn 1971 gyda'r nod o hyrwyddo ffurf iachach o fyw a darparu cefnogaeth i unigolion a theuluoedd yr effeithir arnynt gan gamddefnyddio sylweddau neu ymddygiadau niweidiol eraill. Bydd tair cangen i waith y Cyngor

- **Y Stafell Fyw**: canolfan adfer yn y gymuned sy'n cynnig cefnogaeth barhaus ac ôl ofal i'r rhai y mae caethiwed yn effeithio arnynt, eu teuluoedd a'u ffrindiau;
- **CYNNAL**: Gwasanaeth cwnsela i glerigion, gweinidogion yr Efengyl, gweithwyr Cristnogol, a'u teuluoedd;
- **Lle i Fyw**: Stafell Fyw ar-lein, rithiol, sy'n cael ei datblygu gyda chymorth Prifysgol Metropolitan Caerdydd ac a fydd yn hygyrch ledled y byd ac ym mhob iaith.

**Gellir cael manylion llawn am y gwasanaethau a gynigir wrth ddarllen y deunydd ar y gwefannau isod**:

www.cyngor-adferiad.org (Cymraeg)
www.stafell-fyw.uk (Cymraeg)
www.cynnal.uk (dwyieithog)
www.recovery-council.org (Saesneg)
www.living-room.uk (Saesneg)

**Wynford Ellis Owen fydd Prif Weinyddwr y Cyngor**, a dyma'i fanylion cyswllt: Eglwys y Crwys, 77 Heol Richmond, Caerdydd CF24 3AR; ffôn 07796464045; Ebost: wynford@recovery-council.org

Rydym yn chwilio hefyd am un i **gynorthwyo gyda'r gwaith gweinyddol**, swydd ddwyieithog am 15 awr yr wythnos am dymor o dair blynedd i ddechrau, gyda'r posibilrwydd o ymestyn y tymor a'r oriau fel mae'r gwaith yn datblygu ac os bydd cyllid ar gael. Os oes gennych chi neu rywun o'ch cydnabod ddiddordeb yn y swydd sydd i ddechrau ar 1 Hydref, yna cysylltwch â Wynford am swydd-ddisgrifiad a ffurflen gais.

Os hoffech **gyfrannu'n ariannol at y gwaith neu wirfoddoli**, yna cysylltwch â Wynford. Rydym am gydnabod rhoddion a chefnogaeth enwadau Cymru, yn genedlaethol ac yn lleol, tuag at y gwaith, yn ogystal â grant o £15,000 a dderbyniwyd tuag at CYNNAL gan Ymddiriedolaeth Vronhaul. Hefyd, diolch am gefnogaeth Eglwys y Crwys, sydd wedi talu am y gwaith o addasu'r adeilad, a'r grant o £25,000 a dderbyniwyd gan Henaduriaeth Morgannwg Llundain (Eglwys Bresbyteraidd Cymru) tuag at ail-lansio'r Stafell Fyw.

Bydd **lansiad swyddogol** y fenter newydd yn digwydd ddiwedd mis Hydref 2025 – manylion llawn i ddilyn.

Diolch am bob cefnogaeth.

*Denzil John, Cadeirydd y Cyngor ar Alcohol a Chyffuriau Eraill*
*Ifan Roberts, Cadeirydd Panel Ymgynghorol CYNNAL*

# O Gefn Gwlad

## Gobaith y tawelwch

Daeth brawddeg i fy meddwl yn gymharol ddiweddar mewn achlysur ym Mangor, brawddeg Saesneg, ac o ddrama gan Shakespeare y daw: geiriau olaf Hamlet: 'The rest is silence.'

Mi gofiaf yn dda pryd y dyfynnwyd hon ddiwethaf yn fy nghlyw. Flynyddoedd yn ôl, tua diwedd y saithdegau, roedd Cynhadledd Llenyddiaeth Plant yng Ngregynog – cyfarfod o nos Wener tan bnawn Sul, dros gant ohonom wedi teithio yno, rhai o bell a'r rhan fwya wedi diwrnod caled o waith.

Ar ôl swper nos Wener roedd darlith, rhyw 'wedi cinio' gweddol ysgafn i fod. Ond y tro hwn cafwyd darlith go iawn gan un fu'n ddarlithwraig mewn coleg. Mae hi wedi ein gadael ers talm o amser bellach, ond nid aiff yn angof gan neb ohonom oedd yn y gynhadledd honno. Dechreuodd ddarlithio am hanner awr wedi wyth a gorffen am chwarter wedi deg. Ie, ar nos Wener ddiwedd wythnos waith. Welais i erioed stafell yn gwacáu mor gyflym ar ôl ei geiriau olaf! A'r geiriau hynny? 'The rest is silence.'

Nid stori hollol amherthnasol chwaith, gan mai'r cwestiwn yw: ai rhywbeth sy'n digwydd wedi sŵn yw tawelwch? Ac ai neges o obaith ydyw? Dyna ydoedd yng Ngregynog yn sicr.

Beth yn wir yw rhinweddau tawelwch? Rwy'n meddwl yn aml y dyddiau hyn beth roddai trigolion Gaza, y plant yn arbennig, am noson lle mae distawrwydd yn teyrnasu. Llawer yn Wcráin hefyd a phobman lle mae ciwed bwerus yn creu 'caniadau cras afrywiog hen' yn y byd. Oes, y mae yna neges o obaith a rhinwedd arbennig mewn tawelwch, sy'n dod â fi at y digwyddiad ym Mangor yn ddiweddar.

Yn Neuadd PJ yn y coleg yr oeddwn, neuadd sy'n dod â llawer o atgofion yn ôl i mi, yno i wrando ar berfformiad arbennig o oratorio Elgar, *Breuddwyd Gerontius*, oratorio sy'n cyfleu mewn cerddoriaeth stori'r gerdd gan y Cardinal Newman. Roedd o'n berfformiad ardderchog, ac ar y diwedd bob amser, wedi gwrando cerddoriaeth fel hyn am ryw ddwyawr, y peth ola mae rhywun ei eisiau ydi fod un aelod o'r gynllueidfa yn dechrau cymeradwyo bron cyn i'r cyfan ddod i ben, gan wneud i bawb arall gymeradwyo'n syth. Mae'n dân ar fy nghroen ac wedi digwydd mor aml yn fy mhrofiad.

Ond noson y perfformiad hwn roedd pethau'n wahanol. Yr arweinydd oedd Gwyn L. Williams, a phob clod iddo, gan iddo ar ddiwedd y gwaith gadw ei freichiau i fyny a chafwyd deng eiliad o leia o ddistawrwydd perffaith, y distawrwydd sy'n rhan anhepgor o bob perfformiad wir, yn fwy felly'r oratorio hon bron na'r un, ac roedden nhw'n eiliadau hollol gyfareddol. Yn wyrthiol hefyd, ni chafwyd yr un pesychiad na neb yn ystwyrian nac yn symud, ac yr oedd rhai cannoedd yn y gynulleidfa. Pawb yn ymdeimlo â'r awyrgylch rhyfeddol a grëwyd gan y gerddoriaeth.

Wrth ystyried y profiad hwn a'r dyfyniad gan Hamlet, mi sylweddolais eu bod yn gyffredin i'w gilydd. Fe ddywedir mai neges o esmwythâd mewn marwolaeth a thragwyddoldeb sydd yng ngeiriau Hamlet, ac yn sicr i chi dyna oedd yn nhawelwch y PJ y noson honno.

Y mae cerdd y Cardinal Newman yn adrodd hanes Gerontius ar ei daith o'r byd hwn i dragwyddoldeb. Mae'n dechrau gyda'r geiriau: 'Jesu, Maria, I am near to death', ac yna ceir adrodd am y cyfarfod â chynorthwywyr, angylion, demoniaid – sy'n ei watwar – a'r offeiriad, cyn iddo gyrraedd o'r diwedd i baradwys a'r gân o foliant i'r sancteiddiaf un.

Ac yna'r tawelwch rhyfeddol oedd ar y noson arbennig hon, nid yn ymateb cynulleidfa i'r perffomiad, ond yn rhan ohono. Y diwedd perffaith, yn cyfleu yr un neges â dyfyniad Hamlet: 'the rest is silence' – 'yr hedd na ŵyr y byd amdano' yn ôl Elfed, 'sy'n llifo megis afon trwy ddinas Duw' a hynny 'heb gwmwl byth na nos tu hwnt i'r llen'.

*Elfyn Pritchard*

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 7 Medi, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Hefin Jones, Caerdydd

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 7 Medi, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Carol Roberts, Dolgellau

# O draddodiad i drawsnewid




Beth all yr Eglwys ei ddysgu gan yr Eisteddfod Genedlaethol?

Am ddegawdau, roedd yr Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei hystyried gan lawer fel cadarnle diwylliant dosbarth canol – dathliad traddodiadol, prydferth, ond braidd yn gaeedig o ran ei seremonïau, ei defodau a'i mynegiant. I'w beirniaid, roedd hi wedi'i suddo mewn arferion, yn gwrthod newid, ac yn gynyddol anghysylltiedig â diwylliant ieuenctid. Ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Eisteddfod wedi trawsnewid yn dawel, heb anghofio ei gwreiddiau. Mae bellach wedi agor ei breichiau i ffurfiau celf newydd, lleisiau ifanc, a mynegiannau cyfoes o Gymreictod – gan ddod yn ofod bywiog ar gyfer creadigrwydd, cynhwysiant a chymuned. Mae'n bryd i'r Eglwys ddysgu'r wers.

### Caeedig

Mae'r tebygrwydd yn drawiadol. Fel yr Eisteddfod, mae'r Eglwys wedi'i gwreiddio mewn traddodiad, defod a hanes – sydd oll yn werthfawr ac yn brydferth. Eto, fel yr Eisteddfod unwaith, gall yr Eglwys ymddangos, i'r byd allanol, fel rhywbeth sefydlog, caeedig, ac anodd ei ddeall gan y genhedlaeth ifanc. Nid yw hynny'n golygu bod yr Eglwys wedi colli ei pherthnasedd, ond mae'n awgrymu bod angen dychmygu'n newydd sut y gall ymgysylltu.

### Gweddnewidiad

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol wedi dangos bod newid yn bosibl heb fradychu'r neges. Nid yw'n fater o wanhau'r sylfaen, ond o agor y drysau i leisiau newydd, rhythmau newydd, a dulliau cyfoes o adrodd yr un stori. Mae'n bosibl anrhydeddu'r traddodiad a chadw lle i'r awel ffres. Yn yr eisteddfodau diweddar, rydym wedi gweld brwydrau rap yn Gymraeg, gosodiadau celf ddigidol, theatr arbrofol, a mannau croesawgar i bobl LHDTC+ ac artistiaid niwrowahanol. Nid gwylwyr yn unig yw'r bobl ifanc – ond cyfranogwyr, arweinwyr a chreadwyr. Mae'r diwylliant wedi symud o berfformio i'r gynulleidfa i fynegi o'r galon. Gall – ac mae'n rhaid i'r Eglwys ddilyn trywydd tebyg.

### Creu, archwilio, celfyddyd

Sut olwg allai hyn gael yn ein heglwysi ni?

Yn gyntaf, rhaid creu lle. Nid dim ond lle corfforol i grwpiau ieuenctid, ond lle ysbrydol ac emosiynol i gwestiynau gonest, barn wahanol, cerddoriaeth gyfoes, a chreadigrwydd digywilydd. Rhaid peidio â gweld pobl ifanc fel 'dyfodol yr Eglwys' yn unig, ond fel ei *phresennol*. Gadewch iddyn nhw arwain, pregethu, creu. Os gall yr Eisteddfod gynnwys bîtbocsio ochr yn ochr â'r delyn, gall yr Eglwys gynnwys bardd llafar ochr yn ochr â'r organ.

Yn ail, rhaid archwilio ein diwylliant eglwysig. Ydyn ni'n glynu wrth draddodiad er ei fwyn ei hun? Ydy ein gwasanaethau, ein hiaith, a'n harweinyddiaeth yn adlewyrchu'r cymunedau rydym yn ceisio eu gwasanaethu? Neu ydyn ni'n amddiffyn y gorffennol ar draul y dyfodol? Mae gwahaniaeth rhwng cadw'r Efengyl yr un fath a chadw'r *ffordd* o'i chyfleu yn ddigyfnewid. Roedd Iesu'n siarad mewn damhegion oedd yn berthnasol i'w amser – rhaid i ninnau wneud yr un peth yn ein hoes ni.

Yn drydydd, gallwn ailgysylltu â'r celfyddydau. Mae'r Eisteddfod yn ein hatgoffa bod creadigrwydd yn ffordd bwerus o fynegi gwirionedd, hunaniaeth a chred. Mae gan yr Eglwys hanes hir o gelfyddyd – o emynau i wydr lliw, o ddrama i ganeuon protest. Gadewch i ni adennill y gofod hwn. Beth am gynnal nosweithiau meic agored, arddangosfeydd celf, gweithdai dawns neu adroddiadau fideo? Drwy'r mynegiant yma, gall ffydd ddod yn weladwy, yn ddiriaethol, ac yn berthnasol i'r genhedlaeth nesaf.

Yn olaf, gadewch i ni adeiladu diwylliant o berthyn, nid presenoldeb yn unig. Mae'r Eisteddfod yn fwy na gŵyl – mae'n fudiad o bobl sy'n caru'u hiaith, eu diwylliant, a'u hunaniaeth. Rhaid i'r Eglwys ddod yn fudiad hefyd – o bobl sy'n byw gras, gwirionedd, gobaith a chyfiawnder mewn ffordd sy'n croesawu'r byd i mewn, nid ei wthio allan.

### Dysgu

Gadewch i ni ddysgu o daith yr Eisteddfod. Boed i ni fod yn ddigon dewr i newid, yn ddigon ffyddlon i aros yn wreiddiol, ac yn ddigon beiddgar i gredu y gall yr Eglwys fod yn hen a newydd ar yr un pryd – yn fan lle mae traddodiad a thrawsnewid yn cyfarfod yng nghuriad stori barhaus Duw.

**Wayne Griffiths**
**(Cylchlythyr Capel Seion, 13 Awst 2025)**



**Eglwysi Annibynnol Bethesda, Tymbl Capel Seion, Drefach a Nazareth, Pontiets**

Cynhelir cyfarfod sefydlu

**Parchg Guto Llywelyn**

**yn weinidog i Iesu Grist**
ar yr eglwysi uchod

ar ddydd Sadwrn, 13 Medi, 2025
am 1.30yp

**yng nghapel Capel Seion (SA14 7BN)**

Estynnir croeso cynnes i bawb
Darperir lluniaeth

Ar ran yr eglwysi:

Elen Davies, Mwynfan, Heol Meri, Drefach. (01269) 845 677

Ann Thomas, Y Berllan, Drefach (01269) 841 362

Delyth Bowen, 7 Heol Nazareth, Pontiets. (01269) 860 430

## Barn Annibynnol

# Ffenestri

Yn ei ddyddiau olaf cyn iddo fynd i'r Gogoniant fis Mai eleni, dywedodd fy nhad, 'Paid byw dy fywyd yn gul. Agor y ffenestri!' Cofiais wedyn iddo rannu gyda mi, rai blynyddoedd yn ôl, pa mor hoff yr ydoedd o stori Daniel yn agor ei ffenestr i edrych draw tua Jerwsalem a gweddïo (Daniel 6:10). Er imi fod yn ymwybodol ers pan oeddwn i'n blentyn mai cael ei daflu i ffau'r llewod fu ei hanes, fy nhad agorodd fy llygaid i weld mai herio'r drefn wnaeth Daniel. Gweddïodd deirgwaith y dydd, er i hynny gael ei wahardd, ac agor ei ffenestr uchel er mwyn dangos i'r byd a'r betws ei ymlyniad tuag at Dduw!

Yn Eisteddfod Wrecsam, bûm mewn cyfarfod a drefnwyd gan gyfeillion Crynwyr Cymru. Yno clywais Emma Roberts yn rhannu am ei gwaith fel caplan Carchar Abertawe. Ces fy ysgwyd wrth iddi adrodd am drigolion carchar Berwyn (oedd mor agos i'r maes yn Is-y-coed) yn clywed gweithgaredd yr Eisteddfod drwy eu ffenestri! Clywais mewn modd arbennig gan Emma, a chan Rhian Morgan, a ymwelodd â'r carchar, fel y gallwn edrych drwy ffenest goleuni a gweld daioni ym mhawb. Wrth iddi gloi, fe'm hysgogwyd gan ei chwestiwn, 'Ble y'ch chi? 'Sdim digon o Gymry. Dewch i wirfoddoli!' Rwy'n edrych ymlaen at gael y profiad o gysgodi Emma'n fuan, gyda diolch iddi am agor ffenest cyfle.

Arfer weddol newydd imi yw darllen ysgrifau ar Substack, sef platfform ar y we i awduron a nifer o ddiwinyddion i rannu eu gwaith. Un awdur sydd wedi creu argraff ar filoedd yn ddiweddar yw Freya India, meddyliwr craff sy'n arddel ei ffydd a'i wneud yn berthnasol. Ddywedodd rhywbeth a'm synnodd, sef bod tri chwarter o blant Prydain yn treulio mwy o amser dan do, heb edrych allan drwy'r ffenestri, na charcharorion y wlad! Mae'n ymhelaethu drwy ddweud mai clefyd mwyaf ein hoes ymysg pobl ifanc yw unigrwydd ac nad oes neb yn profi mwyach yr hyn mae hi'n ei alw yn 'spontaneous interaction.' Mae'n dweud yn feiddgar: 'nobody has a personality anymore,' a bod pobl yn cael eu llorio gan amheuaeth ac o'r herwydd yn amddifadu eu hunain rhag ffynnu! Ond o'r cyfan a ddywed Freya India, hyn imi sy'n aros: 'Beth yw cariad, ond ffydd ac ymlyniad pan fo amau yn haws? Beth yw bywyd, ond menter a dewrder pan fo pob rhesymeg yn ein dal yn ôl?'

Mae un o fy nghydweithwyr yn berson hoffus dros ben ond yn hynod o dawel. Mewn sgwrs gofynnodd un arall o'r grŵp iddi am ei barn ar y pwnc trafod dan sylw, gan ei hannog i beidio â bod yn swil. Ei hymateb oedd nad swildod mohono, ond yn hytrach nad oedd yn dymuno (yn ei geiriau hi) 'mynd ar nerfau pobl.' Mae'n enghraifft, fe gredaf, o sut mae amryw o bobl yn teimlo'r dyddiau hyn, bod yn well ganddynt gau ffenestri eu heneidiau yn hytrach na rhannu eu hunain yn rhydd. Siawns nad dyma fwriad na dymuniad Duw ar ein cyfer?

Tra bûm yn ninas Bath am ychydig ddyddiau'n ddiweddar, ces gyfle i ymweld â'r abaty ac eglwys St Michael's – dau addoldy gyda ffenestri lliw bendigedig. Yn yr abaty ces gyfle i ysgrifio ar golomen heddwch bapur; edrychaf ymlaen at ddychwelyd yn yr hydref i weld y gwaith celf anferth gan yr artist Peter Walker, a fy ngholomen fach i'n rhan o'r prydferthwch! Bûm yn yr addoliad fore Sul wedyn yn St Michael's. Hoffais y gofod amlbwrpas a'r cadeiriau cyfforddus. Hoffais hefyd fod Gweddi'r Arglwydd ar y bwrdd cymun yn y Gymraeg a ches sgwrs hyfryd gydag Ethne Mason, Cymraes oedd wedi byw yno ers ugain o flynyddoedd. Roedd y bregeth ddiddorol yn myfyrio ar y wraig wargrwm (Luc 13:10-17). Gofynnodd Ethne imi ar ddiwedd yr oedfa, 'Oeddech chi'n clywed popeth?' Cyfaddefais ei bod yn anodd. Meddyliais eto am Daniel – nid gweddi fach lugoer a thawel fyddai ganddo'n siŵr yn ei ffenest, na – byddai ei lais yn atseinio, ei gefn yn dalsyth, a'r ffenest led y pen yn agored!

Ar ddechrau haf bach Mihangel felly, a hithau'n dymor newydd, gadewch inni adnewyddu ein hymlyniad i agor ein ffenestri (personol ac eglwysig), rhannu ein goleuni a bod yn ddewr (Josua 1:9) yn ein ffydd!

**Sian Meinir**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)


Oedfa Cymorth Cristnogol yn 80 oed

Christian Aid's 80th Anniversary Service




**Ymunwch gyda ni i nodi 80 mlynedd o obaith mewn gwasanaeth arbennig yng Nghaerdydd Canolog. Am fwy o wybodaeth, sganiwch y cod QR.**

Join us to mark 80 years of hope in a special service in Central Cardiff. For more information, please scan the QR code.

cymorth cristnogol christian aid 80 mlynedd years

GRYM ANORCHFYGOL GOBAITH
THE UNSTOPPABLE POWER OF HOPE

Christian Aid is a key member of ACT Alliance. Eng and Wales charity no. 1105851 Scot charity no. SC039150 Company no. 5171525. The Christian Aid name and logo are trademarks of Christian Aid. © Christian Aid 28/7/2025 - 15:21:57. Photo Credit/Llun gan Dafydd Huw

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# DATHLU'R 200fed YM MHENYGROES





Daeth dros 100 o bobol ynghyd i ddathlu 200 mlwyddiant eglwys Annibynnol Penygroes, Sir Gâr. Cynhaliwyd yr oedfa ddathlu ar brynhawn Sadwrn 8 Mehefin a chafwyd te'r dathlu yn dilyn yn neuadd goffa'r pentref. Braf oedd cael cydlawenhau gydag aelodau presennol, plant yr eglwys a ffrindiau eraill ddaeth ynghyd i gofio a dathlu hanes a thystiolaeth eglwys Annibynnol Penygroes a'i chyfraniad i fywyd y pentref.

Yn cymryd rhan oedd y Parchedigion Aled Maskell, Glan Roberts, Dyfrig Rees (yn y llun), Emyr Williams, Dr Emyr Gwyn Evans, a'r Pastor Chris Williams, Mr Peter Harries, Mr Bryn Enoch, Ms Rhiannon Rees, Mr Omri Davies (disgynnydd o'r gweinidog cyntaf), Mr Hywel Williams, Mrs Sheila John a Mr David Thomas.

(Mae'r *Tyst* yn ymddiheuro am yr oedi cyn cyhoeddi'r newyddion hwn.)

# Gweithredu dros heddwch

Yn sgil yr erchyllterau annynol a'r creulondeb affwysol sy'n digwydd yn Gaza mae Cymorth Cristnogol a mudiadau eraill yn ein gwahodd i wneud dau beth ymarferol.

1. Galwant arnom i neilltuo dydd Sul 21 Medi – sydd hefyd yn Ddydd Heddwch y Byd gan y Cenhedloedd Unedig – i fod yn ddydd o weddi yn ein heglwysi. Gellid cynnal munud o dawelwch yn ogystal ag offrymu gweddïau. Yn ein gweddïau dylid cynnwys y pynciau canlynol:
   - Cadoediad ar unwaith
   - Dod â'r trais yn Israel a Phalesteina i ben.
   - Mynediad dirwystr i anghenion dyngarol
   - Rhyddhau Israeliaid a Phalestiniaid sydd wedi eu cipio.
   - Proses heddwch effeithiol.
2. Hefyd, maent yn ein gwahodd i greu Llinell Goch y tu allan i'r Senedd ym Mae Caerdydd am 12.30 ar ddydd Mercher 24 Medi er mwyn galw am heddwch.



*Llinell Goch yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam*

# Hyfforddi – *parhad*

Llawenydd hefyd oedd gweld 65 yn dilyn modiwl Darganfod yr Hen Destament, gyda chyfartaledd o 43 ym mhob sesiwn, a 46 yn dilyn modiwl Dehongli'r Testament Newydd, gyda chyfartaledd o 34 ym mhob sesiwn. Ac wrth gwrs, pan oedd rhaid i unrhyw un fethu sesiwn, roedd cyfle i wylio'n ôl.

Gyda modiwl Y Sacramentau, fel rhan o'n perthynas cydenwadol, gwahoddwyd unrhyw un oedd â diddordeb i ddilyn y modiwl hwn i ymuno â chyfeillion Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Un fanteisiodd ar y cyfle i ddilyn y modiwl dan arweiniad y Parchedig Eifion Roberts, ond hyderwn y bydd y cydweithio hwn yn fodd i gydnabod ac elwa o ddarpariaeth ein gilydd.

Bu i mi arwain y modiwl Bugeilio yn bennaf ar gyfer y rhai hynny sydd ar y daith o gymhwyso ar gyfer y weinidogaeth, a braint yw arwain y cyfeillion hynny ar daith i ystyried arwyddocâd bugeilio, a hynny drwy ystyried y sylfeini Beiblaidd, a'r wedd ymarferol.

*Bydd yr ail ran yn y rhifyn nesaf o'r* Tyst.

Cynhelir

## Oedfa Gomisiwn

Ysgrifennydd Cyffredinol newydd
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

## Elinor Wyn Reynolds

nos Fercher 24 Medi am 7pm
yng nghapel y Priordy, Caerfyrddin

Mae croeso cynnes iawn i bawb.
Dewch i ddymuno'n dda ac i fwynhau cwmnïaeth.
Bydd lluniaeth i ddilyn yn y festri.

*Caiff yr oedfa ei ffrydio'n fyw ar wefan annibynwyr.cymru*

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*